| | |
|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod misol dyddiedig 10fed o Fawrth 2026 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.** | |
| **PRESENNOL** | |
| Eifion Williams | Emyr Gareth |
| Meleri Jones | Gwion Emyr |
| Dan Williams | Cynog Prys |
| Llŷr Evans | |
| | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| **1.1** | Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Eifion Williams.(Cadeirydd). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Deiniol Tegid, Cynghorydd Iolo Williams, Cynghorydd Eleri Wyn Thomas a'r Cynghorydd Dafydd Huws. | **CLERC** |
| **1.2** | Prydles Hen Rheilffordd – Mae prydles ddrafft ar hyn o bryd yn derbyn sylw cyfreithiwr y Cyngor. Bydd yn cael ei gwirio cyn gall penderfyniad o'i derbyn gael ei wneud.<br>Mae angen cadarnhad bydd trwyddedau sydd yn bodli ar hyn o bryd sy'dd yn caniatáu defnyddio'r tir i croesi i eiddo preifat yn cael eu diddymu. Y Clerc i wneud ymholiadau. | **CLERC** |
| **1.3** | Gwasanaethau Bysiau – mae neges wedi ei anfon gan y Cynghorydd Emyr Gareth ar gyfer cael gwasanaethau bysiau yn ôl i safle bws ger y Chns. Nid oes ymateb wedi ei dderbyn i ddyddiad. | **CLERC** |
| **1.4** | Rhif Achos / Case No.: G25/0089<br>Lleoliad / Location: Tir Ger Y Wern, Y Felinheli, LL56 4TZ<br>Manylion /Details: A yw Williams homes wedi cael caniatad i droi'r tir a rhoi 'hard core' i lawr i greu lleoliad<br>gwaith ar y safle y tu ol i'r Wern (Rhif 79-77)? O beth sydd ar y map, mae caniatad<br>cynllunio ganddynt ar gyfer y 2 barth cyntaf o'r gwaith ond nid ar gyfer y tir sydd yn ochri<br>gyda'n gardd ni'n rhif 80 ac y tu ol i'n cymdogion. Os gwelwch yn dda wnewch chi yrru<br>copi i mi o'r ddogfen sydd yn rhoi caniatad i'r gwaith hyn gael ei wneud os oes caniatad,<br>ac os nad oes, os gwelwch yn dda wnewch chi roi gwybod i mi beth fydd y camau fydd yn<br>cael eu cymryd?<br>Nid ydym chwaith wedi cael unrhyw gyfathrebiad gan Williams Homes i roi gwybod y<br>byddai cymaint mwy o draffig ar y lon mynediad y tu cefn i ni.<br><br>Cafwyd gopi o'r gohebiaeth yma penderfynwyd anfon y mater at y prif weithredwr. | **Clerc** |
| **1.5** | Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (2024-2039) – penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig i'r eitem yma. | |

| | | |
|---|---|---|
| | cynhaliwyd cyfarfod rhithiol arbennig er mwyn ei ystyried. Gweler atodiad 1 am y sylwadau. | |
| **2.0** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **3.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| **3.1** | Eitem 10.1 Cynghorydd Emyr Gareth | **CLERC** |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **4.1** | Derbyniwyd gwariant mis Chwefror 2026. Derbyniwyd hefyd adroddiad ariannol am y mis hwnnw. | |
| **4.2** | Ceisiadau Cymorth Ariannol- Daeth rhai ceisiadau yn hwyr. Felly fe benderfynwyd ar y canlynol: Guides £300, Brownies £300, Clwb peldroed Ieuenctid £400 a Gŵyl Cerdd Dant £200 | |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **5.1** | Bydd Cofnodion Chwefror a Mawrth 2026 yn cael eu cadarnhau ym mis Ebrill. | |
| **5.2** | Cynllun Rheoli Traffig - cyfarfod arall wedi ei drefnu. | **CLERC** |
| **5.3** | Llwybr Cerrig yr Afon – dim cyfarfod wedi bod hyd yma. bydd y Cadeirydd yn gwneud trefniadau ar gyfer cyfarfod safle. | **CLERC** |
| **5.4** | i. Prydles Stad y Goron – dim dilyniant wedi bod ar gyfer y brydles. Y Clerc i anfon at yr asiant unwaith eto, | **CLERC** |
| **5.5** | Ymestyn llwybr Beicio ger yr hen fodurdy – cyfarfod wedi bod. Cyfarfod positif. Gweler sylwadau wedi'r cyfarfod isod:<br>**Sylwadau'r gymuned**<br><br>• Roedd teimlad cryf iawn yn y gymuned ynghylch yr angen am y ddarpariaeth hon, gan ei bod yn mynd i'r afael â phroblem bresennol drwy greu cyswllt diogel i Lôn Las Menai o Felinheli. Mae hefyd yn un o'r cysylltiadau coll ar hyd Lôn Las Menai, sy'n llwybr strategol sy'n cysylltu Bangor a Chaernarfon.<br>• Dymuniad y grŵp oedd gweld darpariaeth ar hyd hen linell y rheilffordd, sydd wedi'i lleoli y tu ôl i'r tai ar Ffordd Caernarfon, cyn ymuno â'r briffordd gyferbyn â'r culfan.<br>• Nodwyd hefyd fod y llwybr troed presennol ar hyd Ffordd Caernarfon yn rhy gul ar gyfer darpariaeth feicio. Hefyd, bod diffyg darpariaeth ddiogel i feicwyr groesi'r ffordd er mwyn ymuno â Lôn Las Menai, sy'n ymestyn o Ffordd Pen y Bryn ymlaen.<br><br>**Sylwadau swyddogion y Cyngor**<br><br>• Yn ôl ein Cynlluniau Teithio Llesol, mae'r diffyg cyswllt hwn eisoes wedi'i nodi ar y mapiau. Fodd bynnag, efallai nad yw'r llinell sydd wedi'i dangos ar | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| | y mapiau'n cyfateb yn llawn i ddymuniadau'r gymuned. Fel rhan o'r adolygiad o'r cynlluniau eleni, bydd modd gwneud addasiadau i adlewyrchu'r hyn y mae'r gymuned yn ei ddymuno.<br>• Mae'r sefyllfa gyfreithiol yn gymhleth o ran ail-greu llwybr newydd, gan fod rhai perchnogion tir wedi ymestyn eu gerddi dros y tir lle byddai'n rhesymol creu llwybr cerdded a beicio.<br>• Yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27, mae'r Cyngor eisoes wedi neilltuo cyllid ar gyfer datblygu ac gweithredu rhaglen waith i wella llwybrau cerdded a beicio yn y sir felly does ddim cyfle i symud y cynllun canlynol yn ei flaen eleni.<br>• Bydd lefel y cyllid sydd ar gael i Gynghorau lleol yn y dyfodol ar gyfer datblygu eu rhwydwaith Teithio Llesol yn ddibynnol ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen. Er hynny, os yw'r momentwm i ariannu cynlluniau Teithio Llesol yn parhau, bydd modd ystyried comisiynu adroddiad dichonoldeb i archwilio faint mor ymarfer y byddai ddarparu'r llwybr yn ogystal a nodi'r ffordd fwyaf synhwyrol ymlaen. | |
| **5.6** | Cais Cynllunio pêl droed Ffordd lan y môr - dim dilyniant er bod y Clerc wedi anfon at yr Adran Gynllunio. | **CLERC** |
| **6.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **6.1** | Rhif Cais: C26/0100/20/DT<br>Lleoliad: 29 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PB<br>Bwriad: Gosod Pwmp Gwres Vaillant ar wal ochr yr annedd.<br>**DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **6.2** | Rhif Cais: C26/0108/20/DT<br>Lleoliad: Fern Bank, 3 Trem Y Foel, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4UZ<br>Bwriad: Dymchwel ystafell haul presennol. Estyniad unllawr llawr gwaelod ac estyniad deulawr.<br>**DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **6.3** | Rhif Achos: CAS-04705-Y4D9Q5<br>Lleoliad: 6, Elim Cottages, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JR<br>Manylion:<br>*Cais ôl weithredol am garafán lety gwyliau a pharcio.*<br>Cyfeirnod Cyngor Gwynedd:C25/0079/20/LL<br>Dyddiad Cychwyn yr Apêl:04-03-2026<br>SYLWADAU YN PARHAU | |
| **7.0** | **RHEOLAETH** | |
| **7.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | **CLERC** |
| **7.2** | Y Pwyllgor i adolygu Polisi Egwyddorion grantiau bach. Hefyd i adolygu Polisi Meinciau Coffa ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor HYN I DDIGWYDD ERBYN MIS MAI | **RHEOLAETH** |
| **8.0** | **ASEDAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| **8.1** | Cafwyd pris gan Designer Signs i osod ffenestri polycarbonate o fewn rhai o'r cysgodfannau. Y Clerc i anfon atynt i symud ymlaen a'r gwaith gan eithrio un. | **CLERC** |
| **8.2** | Tir yr hen Rheilffordd - mae gwaith y tocio wedi gwneud gwahaniaeth ac roedd y Cynghorydd Daniel Williams am gyfathrebu a Chyngor Gwynedd i ymestyn y gwaith tocio yn syth a dim disgwyl am flwyddyn arall gan nad oedd dim pwrpas i ddisgwyl. Y Cynghorydd hefyd i edrych os oes modd cael grant arall. | **CLERC** |
| **19.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **9.1** | Gweler eitem 5.5 | **CLERC** |
| **9.2** | Mae pryder yn parhau ynglŷn a thraffig a pharcio ger yr ysgol. Penderfynwyd gwneud cais am ymweliad safle a visirails ar y gyffordd i fewn i ffordd Tanygrisiau. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd. | |
| **10.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **10.1** | Mae menter y bwrdd sglefrio ynn parhau ac mae'r neuadd yn addas ar gyfer y fenter. | **DW** |
| **11.0** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| **11.1** | Y Cynghorydd Daniel Williams yn mynychu digwyddiad CNC. Mae angen gwneud dyddiad ar gyfer hyfforddiant a'r asesiad risg. | **DW** |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.** | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |

Atodiad 1

**Sylwadau Estynedig Cyngor Cymuned y Felinheli ar Gynlluniau Datblygu Arfaethedig**

**Rhif 86** – Dim Gwrthwynebiad

Nid oes sylwadau pellach.

**Rhif 87** – Gwrthwynebu

Rhesymeg Estynedig

1. Effaith gronnus ar y gogledd-ddwyrain
   Mae datblygiadau diweddar yn y rhan hon o'r pentref eisoes wedi cynyddu dwysedd tai yn sylweddol. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (PPW) Adran 4 – Lleoli Datblygiadau, dylid osgoi crynodiad anghymesur o dwf mewn un rhan o gymuned fach.

2. Maint y datblygiad arfaethedig
   Mae'r potensial i godi 60–160 o dai yn cynrychioli datblygiad o raddfa sy'n anghymesur â maint a chapasiti seilwaith y Felinheli. Byddai hyn yn groes i egwyddorion cynaliadwyedd cymunedol a nodir yn TAN 1 a TAN 12.

3. Materion draenio a llifogydd
   Mae'r tir yn adnabyddus am broblemau dŵr wyneb. Mae datblygiadau blaenorol eisoes wedi arwain at ddŵr yn rhedeg i Ffordd Brynffynnon, gan greu perygl i gerddwyr a defnyddwyr y ffordd.
   Mae hyn yn codi pryderon o dan TAN 15 – Datblygu a Llifogydd, sy'n mynnu bod datblygiadau newydd yn dangos nad ydynt yn gwaethygu perygl llifogydd i ardaloedd cyfagos.

4. Effaith ar yr ysgol gynradd a seilwaith cymunedol
   Byddai cynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn arwain at bwysau ychwanegol ar yr ysgol gynradd leol, sydd eisoes yn gweithredu ar gapasiti uchel. Mae hyn yn berthnasol i Asesiad Anghenion Ysgolion ac i bolisïau seilwaith lleol.

5. Traffig a pharcio
   Mae'r ardal o flaen yr ysgol eisoes yn broblemus o ran parcio a llif traffig. Byddai datblygiad o'r maint hwn yn gwaethygu'r sefyllfa, gan wrthdaro â gofynion TAN 18 – Trafnidiaeth sy'n mynnu mynediad diogel a digonol i bob datblygiad.

**Rhif 107** – Trin fel Eitem Ar Wahân (1.25 hectar)

Pryderon Estynedig

1. Cynnydd mewn traffig
   Byddai'r datblygiad yn ychwanegu at y traffig sy'n defnyddio Ffordd Brynffynnon

a ffyrdd lleol cul eraill. Mae'r rhwydwaith presennol yn methu â chwrdd â gofynion diogelwch ffordd a nodir gan TAN 18.

2. Tir gwlyb a phroblemau draenio
   Mae'r cae yn adnabyddus am fod yn wlyb iawn. Mae gwaith dros dro eisoes wedi achosi problemau draenio, gan awgrymu nad yw'r tir yn addas ar gyfer datblygiad dwys. Mae hyn yn berthnasol i Asesiadau Draenio Cynaliadwy (SuDS).
3. Cynaliadwyedd gwasanaethau lleol
   Mae pryderon ynghylch gallu'r ysgol gynradd a'r feddygfa leol i ymdopi â chynnydd mewn poblogaeth. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd cymdeithasol a mynediad at wasanaethau hanfodol.

**Rhif 35** – Gwrthwynebu

Rhesymeg Estynedig

1. Gor-ddatblygiad
   Mae'r safle'n cynrychioli dwysedd datblygu sy'n anghydnaws â chymeriad y pentref ac â pholisi lleol ar dwf graddol.
2. Diffyg mynediad addas
   Mae mynediad i'r safle yn annigonol, gyda ffyrdd cul a chyffordd beryglus rhwng Ffordd Brynffynnon a Ffordd Caernarfon. Mae hyn yn groes i egwyddorion mynediad diogel a nodir yn TAN 18.
3. Ffyrdd lleol heb gapasiti
   Mae'r ffordd i Gelli Gyffwrdd yn ffordd sengl heb le i gerddwyr na beicwyr. Nid yw'r rhwydwaith presennol yn gallu ymdopi â thraffig ychwanegol.
4. Materion dŵr wyneb
   Mae dŵr eisoes yn arllwys i'r ffyrdd yn yr ardal. Byddai datblygiad pellach yn gwaethygu'r sefyllfa ac yn methu â bodloni gofynion TAN 15.

**Rhif 192** – Gwrthwynebu

Rhesymeg Estynedig

1. Mynediad gwael
   Nid yw'r mynediad presennol yn bodloni safonau diogelwch nac yn darparu ar gyfer cerddwyr, gan dorri ar draws gofynion dylunio cynhwysol (TAN 12).
2. Diffyg troedffordd
   Mae diffyg llwybrau cerdded yn peri risg sylweddol i ddefnyddwyr bregus.
3. Tir ar lethr
   Mae'r safle ar lethr serth, gan gynyddu'r risg o ddŵr yn llifo i'r ffordd islaw. Mae hyn yn peri pryder o dan asesiadau risg llifogydd.

**Rhif 205** – Gwrthwynebu

Rhesymeg Estynedig

1. Ffyrdd sengl
   Nid yw ffyrdd cul yr ardal yn addas ar gyfer traffig ychwanegol, gan greu perygl i gerddwyr a defnyddwyr eraill.
2. Y tu allan i ffin naturiol y pentref
   Nid yw'r safle'n rhan o batrwm twf naturiol y Felinheli. Mae hyn yn groes i egwyddorion datblygu cynaliadwy ac i bolisïau sy'n hyrwyddo twf o fewn ffiniau presennol cymunedau.

**Rhif 5** – Sylwadau Estynedig

1. Risg tirlithriad
   Mae pryderon credadwy ynghylch sefydlogrwydd y tir. Byddai angen Asesiad Geodechnegol cyn unrhyw ystyriaeth o ddatblygu.
2. Cynllun anghywir
   Mae'r cynllun yn cynnwys elfennau (traeth a chlogwyn) nad ydynt yn gywir i'r safle, gan godi cwestiynau ynghylch cywirdeb y wybodaeth a gyflwynwyd.
3. Safle Hynafol Cofrestredig
   Mae'r ardal yn cynnwys Scheduled Ancient Monument, sy'n destun amddiffyniad statudol. Mae datblygu'n groes i egwyddorion cadwraeth treftadaeth (PPW Adran 6).
4. Mynedeb naturiol a defnydd hamdden
   Mae'r safle'n rhan o lwybr naturiol poblogaidd ac yn cyfrannu at lesiant cymunedol. Mae hyn yn berthnasol i Bolisi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
5. Colli coed a chymeriad naturiol
   Byddai torri coed yn newid cymeriad yr ardal ac yn effeithio ar fioamrywiaeth, gan wrthdaro â TAN 5 – Cadwraeth Natur.
6. Effaith ar olygfeydd
   Byddai'r datblygiad yn newid golygfa agored o Ynys Môn, sy'n rhan o gymeriad gweledol y pentref.
7. Gor-ddatblygiad
   Mae'r dwysedd arfaethedig yn anghydnaws â'r ardal.
8. Mynedfa sengl
   Nid yw mynediad cul yn bodloni gofynion diogelwch.
9. Ardal gadwraeth arbennig
   Mae'r safle'n cynnwys gwerth ecolegol a diwylliannol sylweddol.

10. Gweledigaeth gwael ar y gyffordd
Byddai datblygiad yn rhwystro gwelededd ac yn cynyddu peryglon traffig.